


Croeso | Welcome

Croeso i arddangosfa gyhoeddus Parc Ynni Banc y Celyn. Mae'r beneri arddangos canlynol yn nodi agweddau allweddol y parc ynni arfaethedig, sydd wedi bod yn destun ystyriaeth helaeth gan ein arbenigwyr amgylcheddol a thechnolegol.



Cymerwch eich amser i adolygu'r wybodaeth. Mae aelodau allweddol o dîm y prosiect wrth law i ateb unrhyw gwestiynau.

Mae baner Cymru ar fathodyn ein cydweithwyr gyda'r gallu i sgwrsio yn y Gymraeg.

Manylion yr Ymgeisydd

PARC YNNI BANC Y CELYN CYF, menter ar y cyd rhwng Wind 2 Limited (Wind2) a chwmnïau a reolir gan Octopus Energy Generation, yw'r ymgeisydd

Yn gwmni dan berchnogaeth annibynnol â phencadlys yng Nghymru, mae Wind2 yn ddatblygwr ynni adnewyddadwy arbenigol, gan weithio ar lu o brosiectau ynni adnewyddadwy ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.

Mae Octopus Energy Generation yn un o fuddsoddwyr mwyaf Ewrop mewn asedau ynni adnewyddadwy a phrosiectau pontio i ynni adnewyddadwy, gan reoli mwy na 300 o brosiectau ynni gwyrdd ar raddfa fawr mewn 13 o wledydd gan ddefnyddio technolegau gwahanol, gan gynnwys ynni gwynt ar y tir ac ar y môr, ac ynni solar.gwynt ar y môr ac ynni solar.

Ein Tîm

Mae aelodau allweddol o dîm y prosiect wrth law i drafod y parc ynni arfaethedig ac i ateb eich cwestiynau.



Janet Sanders
Rheolwr Prosiect



Samuel Leuty-Milner
Rheolwr Prosiect




Janet Wagstaff
Rheolwr Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata



Sganiwch y côd QR i weld y wybodath yma

Welcome to the Parc Ynni Banc y Celyn public exhibition. The following exhibition banners set out key aspects of the proposed energy park, which have been subject to extensive consideration from our independent environmental and technical experts.



Take as much time as you need to review the information. Key members of the project team are on hand to answer any questions.

Our Welsh speaking colleagues are highlighted by the Welsh flag on their name badges.

About the Applicant

The applicant is PARC YNNI BANC Y CELYN CYF, a joint venture between Wind 2 Limited (Wind2) and companies managed by Octopus Energy Generation.

Wind2 is a Welsh headquartered, independently owned, specialist renewable energy developer, working on a range of renewable energy projects across Wales, England and Scotland.

Octopus Energy Generation is one of Europe's largest investors in renewable energy assets and energy transition projects, managing more than 300 large-scale green energy projects spanning 13 countries across technologies including onshore and offshore wind and solar energy.

Meet the Team

Key members of the project team are on hand to discuss the proposed energy park and answer your questions.



Janet Sanders
Project Manager



Samuel Leuty-Milner
Project Manager



Janet Wagstaff
PR and Marketing Manager



Scan the QR code to view this information

wind2

parcynnibancycelyn.cymru



Pam fod angen mwy o Ynni Adnewyddadwy arnom

Profwyd mai ynni adnewyddadwy yw un o'r dulliau mwyaf cost-effeithiol o gynhyrchu pŵer dibynadwy, di-garbon ac o leihau dibyniaeth y DU ar drydan wedi'i fewnforio. Mae'n helpu i ddiogelu diogelwch ynni a dyna pam mae Llywodraeth Cymru a'r DU wedi gosod uchelgais i gynhyrchu 100% o drydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035, gyda 1.5 gigawat ohono trwy berchnogaeth leol.

Argyfwng Hinsawdd Powys

Ar 24 Medi 2020, datganodd Cyngor Sir Powys argyfwng hinsawdd, gan ddatgan ei huchelgais o leihau allyriadau carbon y Cyngor i sero net yn unol â tharged sector cyhoeddus Cymru o 2030.

Darparu Sero Net a Diogelwch Ynni y DU

Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud ymrwymiad cyfreithiol i gyflawni sero net, sy'n golygu gwaredu allyriadau carbon o'r grid pŵer drwy symud i ffwrdd o ddefnyddio tanwydd ffosil. Ategir yr ymrwymiad hwn gan darged uchelgeisiol i ddyblu ynni gwynt ar y tir erbyn 2030 a chynyddu capasiti solar bron i bum gwaith i 70 gigawat (GW) erbyn 2035.

Yn ychwanegol i hyn, datganodd Llywodraeth Cymru eu hargyfwng hinsawdd eu hunain ar 29 Ebrill 2019 ac yna 'Cymru Sero Net' sy'n gosod y sylfaen i wneud Cymru yn genedl Sero Net erbyn 2050.

Dim ond trwy gynyddu'n sylweddol ein ffynonellau ynni adnewyddadwy dibynadwy y gellir cyflawni'r targedau hyn, gan gynnwys ynni gwynt ar y tir, pŵer solar a systemau storio ynni mewn batri. Ategir hyn gan adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC) ym mis Mehefin 2023 i Senedd y DU, sydd yn pwysleisio'r angen i ehangu ynni gwynt ar y tir.

Bydd prosiectau ynni adnewyddadwy, megis y cynnig ar gyfer Parc Ynni Banc y Celyn, yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at dargedau lleol a chenedlaethol ac hefyd yn cynorthwyo diogelwch ynni'r DU.

Why We Need More Renewable Energy

Renewable energy is proven to be one of the most cost-effective methods of producing reliable, non-carbon emitting power while reducing the UK's reliance on imported electricity and helping protect energy security, which is why the Welsh and UK government has set an ambition to generate 100% of electricity from renewable sources by 2035, with 1.5 gigawatts through local ownership.

Powys Climate Emergency

On the 24th of September 2020, Powys County Council declared a climate emergency and announced their ambition to reduce the Council's carbon emissions to net zero in line with the Welsh public sector target of 2030.

Delivering UK Net Zero and Energy Security

The UK Government has made a legally binding commitment to achieve net zero, which means removing carbon emissions from the power grid by moving away from fossil fuels. This commitment is bolstered by an ambitious target to double onshore wind energy by 2030 and increase solar capacity nearly fivefold to 70 gigawatts (GW) by 2035.

Further to this, the Welsh Government declared their own climate emergency on the 29th April 2019 followed by 'Net Zero Wales' which sets the foundations to make Wales Net Zero by 2050.

These targets can only be achieved through a significant increase in reliable renewable energy sources, including onshore wind, solar power and battery energy storage systems which is backed by the Climate Change Committee (CCC) report in June 2023 to the UK Parliament, emphasising the need for the expansion of onshore wind energy.

Renewable energy projects, such as the proposal for Parc Ynni Banc y Celyn, will make a significant contribution towards local and national targets as well as help the UK's energy security.



Sganiwch y cod QR i weld y wybodaeth hon



Scan the QR code to view this information



wind²

parcynnibancycelyn.cymru



Hanes y Prosiect

Lleolir Parc Ynni Banc y Celyn ar ardal o tua 1,211 hectar o dir pori a thir pori isel rhwng Capel Uchaf, Gwenddwr, Crucadarn ac Erwyd. Mae Ardal Hyfforddiant Tactegol (TTA) Pontsenni ychydig i'r gorllewin o'r safle.

Cydnabyddir bod ffin y cais yn cynnwys ardaloedd o dir comin cofrestredig, a bod cyfnewid tir comin yn ddarostyngedig i'w broses gydsynio ei hun a nodir yn Neddf Tiroedd Comin 2006. Yn unol ag Adran 16 o'r Ddeddf Tiroedd Comin, bydd cydsyniad eilaidd yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r Cais DAC i Wênidogion Cymru os bydd rhai adrannau o'r tir comin cofrestredig yn gael eu rhyddhau rhag cofrestru a'u cyfnewid â thir comin cyfnewid arfaethedig.

Mae'r parc ynni arfaethedig, gyda chynhwysedd gosodedig amcangyfrifedig o fwy na 200MW, gyda chynigion cychwynnol yn cynnwys hyd at 27 o dyrbinau gwynt gyda uchder blaen y llafnau hyd at 200m, 30MW o baneli solar wedi'u gosod ar y ddaear, a storfa batri.

Yn seiliedig ar yr uchod, mae gan y prosiect botensial i gynhyrchu 700,000 MWh** o drydan yn flynyddol, sy'n cyfateb i ddiwallu anghenion tua 215,000 o gartrefi, tra'n gwrthbwysu tua 47,000 tonnell o CO2 y flwyddyn.

Ceir mynediad i'r safle o'r A470, trwy bentref Erwyd ac ar drac pwrpasol. Yn ychwanegol, bydd cerbydau adeiladu yn defnyddio'r B4520 ar hyd gorllewin y safle.

Ystyrir bod y nodweddion canlynol yn ddelfrydol ar gyfer lleoli parc ynni arfaethedig:

- Cyflymder gwynt da ar y safle
- Cysylltiad grid masnachol ymarferol
- Wedi'i leoli y tu allan i unrhyw ddynodiadau cynllunio tirwedd rhyngwladol, cenedlaethol neu lleol
- Digon o ddwysedd ymbelydredd solar ar y safle
- Tirfeddianwyr sy'n fodlon ystyried eu tir at ddiben datblygu ynni adnewyddadwy
- Cyfle i wella bioamrywiaeth

*Cyfrifwyd gan ddefnyddio ystadegau diweddaraf DESNZ sy'n dangos mai 3,239kWh yw defnydd cartref cyfartalog blyneddol gwledydd Prydain (ym mis Ionawr 2024, wedi'i ddiweddarau'n flynyddol)

**Ystadegyn allyriadau "pob tanwydd adnewyddadwy" DESNZ o 437 tonnell o garbon deuocsid fesul GWh o drydan a gyflenwir yn Digest of UK Energy Statistics (Gorffennaf 2024) Tabl 5.14 ("Estimated carbon dioxide emissions from electricity supplied")

About the Project

Occupying an area of approximately 1,211 hectares of a mixture of grazing land and lowland pasture, Parc Ynni Banc y Celyn, if consented will be located close to Upper Chapel, Gwenddwr, Crickadarn and Erwood. The Sennybridge Tactical Training Area (TTA) is located immediately to the west of site.

It is recognised that the application boundary contains areas of registered common land, and that exchange of common land is subject to its own consenting process as set out in the Commons Act 2006. As per Section 16 of the Commons Act, a secondary consent will be submitted as part of the DNS Application to Welsh Ministers if some parts of the registered common land are to be released from registration and exchanged with proposed replacement common land.

The proposed energy park, with an estimated installed capacity in excess of 200MW with initial proposals consisting of up to 27 wind turbines with a tip height of up to 200m, 30MW of ground mounted solar panels and battery storage.

Based on the above, the project has the potential to generate 700,000 MWh** of electricity annually, equivalent to meet the needs of approximately 215,000 homes, while offsetting approximately 47,000 tonnes of CO2 per annum.

Access will be from the A470, through the village of Erwood and via a purpose-built track. In addition, construction vehicles will use the B4520 via the west of the site.

The following features are considered ideal for the siting of proposed energy parks:

- Good on-site wind speeds
- Commercially viable grid connection
- Located outside any international, national or local landscape related planning designations
- Sufficient on-site solar radiation intensity
- Landowners willing to consider their land for the purpose of renewable energy development
- Opportunity to deliver enhanced biodiversity

*Calculated using the most recent statistics from DESNZ showing that annual GB average domestic household consumption is 3,239kWh (as of January 2024, updated annually)


**DESNZ's "all non-renewable fuels" emissions statistic of 437 tonnes of carbon dioxide per GWh of electricity supplied in the Digest of UK Energy Statistics (July 2024) Table 5.14 ("Estimated carbon dioxide emissions from electricity supplied")



Sganiwch y cod QR i weld y wybodaeth hon



Scan the QR code to view this information



wind2



Asesiad Effaith Amgylcheddol

Mae Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA) ar gyfer safle'r parc ynni arfaethedig ar y gweill ar hyn o bryd.

Cyflwynwyd Dogfen Gwmpasu i 'Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru' (PEDW) gan Wind 2 Ltd ym mis Mawrth 2025 yn amlinellu cwmpas arfaethedig yr asesiad. Bydd y broses hon yn ein galluogi i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r ymgynghorwyr statudol perthnasol a phenderfynu ar y cwmpas priodol ar gyfer cyflwyno'r AEA.

Ymgynghorwyd â Chyngor Sir Powys ac ymgynghorwyr allweddol eraill megis Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gwasanaethau Traffig Awyr Cenedlaethol (NATS) i gytuno ar gwmpas gofynnol arolygon ac asesiadau, ac i ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau sensitif.

Bydd canlyniadau'r AEA yn cyd-fynd â'r cais terfynol i'w gyflwyno i PEDW yn gaeaf 2025.

Bydd yr AEA yn asesu:-

- **Ecoleg ac Adareg:** Mae arolygon bywyd gwyllt helaeth (adar, ystlumod, planhigion) wedi'u cynnal ers i leihau'r effaith ar ecosystemau lleol.
- **Dŵr a Phriddoedd:** Cynlluniwyd y prosiect i ddiogelu dŵr a phriddoedd. Mae arolygon mawn wedi'u cynnal a bydd seilwaith yn cael ei leoli i ffwrdd o ardaloedd mawn dyfnach. Disgwylir i'r prosiect wrthbwysu ei ôl troed carbon o fewn 1-2 flynedd.
- **Perygl Llifogydd:** Bydd asesiad risg llifogydd yn cael ei gwblhau.
- **Treftadaeth Ddiwylliannol:** Nod dyluniad y prosiect yw lleihau'r effaith ar safleoedd hanesyddol cyfagos.
- **Sŵn:** Bydd lefelau sŵn yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu (o dyrbinau ac o seilwaith sy'n gysylltiedig â'r fferm batri a solar) yn cael eu rheoli'n ofalus ac yn cydymffurfio â'r holl reoliadau.
- **Yr Economi:** Bydd y prosiect yn cael ei asesu ar gyfer ei effaith economaidd gyffredinol, gan gynnwys creu swyddi a manteision lleol.
- **Tirwedd:** Mae asesiad manwl o'r effaith weledol yn cael ei gynnal o olygfannau allweddol, i'w gytuno ag ymgynghorwyr statudol.



Sganiwch y cod QR i weld y wybodaeth hon

Environmental Impact Assessment

An Environmental Impact Assessment (EIA) for the proposed energy park site is currently in progress.

A Scoping Document was submitted to Planning and Environment Decisions Wales (PEDW) by Wind 2 Ltd in March 2025 outlining the proposed scope of the EIA. This process will allow us to directly engage with the relevant statutory consultees and determine the appropriate scope for the EIA submission.

Consultation is being undertaken with Powys County Council and other key consultees such as Natural Resource Wales and National Air Traffic Services (NATS) to agree on the required scope of surveys, assessments and to safeguard sensitive habitats and species.


The results of the EIA will accompany the final application to be submitted to the PEDW in Winter 2025.

The EIA will assess:-

- **Ecology & Ornithology:** Extensive wildlife surveys (birds, bats, plants) have been conducted to minimise impact on local ecosystems.
- **Water & Soils:** The project is designed to protect water and soils. Peat surveys have been carried out and infrastructure will be located away from deeper peat areas. The project is expected to offset its carbon footprint within 1-2 years.
- **Flood Risk:** A flood risk assessment will be completed.
- **Cultural Heritage:** The project design aims to minimise impact on nearby historic sites.
- **Noise:** Noise levels during construction and operation (from turbines and from infrastructure associated with the battery and solar farm) will be carefully managed and comply with all regulations.
- **Economy:** The project will be assessed for its overall economic impact, including job creation and local benefits.
- **Landscape:** A detailed visual impact assessment is being carried out from key viewpoints, to be agreed with statutory consultees.



Scan the QR code to view this information



wind2



Cronfa Budd Cymunedol

Cronfa Budd Cymunedol

Mae Wind2 ac Octopus Energy Generation wedi ymrwymo i sicrhau bod y cymunedau lleol yn elwa o'r parc ynni, a byddant yn darparu cronfa budd cymunedol benodedig o o leiaf £5,000 am bob megawat o gapasiti a osodir.

Fel rhan o'n hymgyngoriadau cyhoeddus, rydym yn ceisio eich barn gychwynnol ar sut y gellid rheoli, dosbarthu a defnyddio'r gronfa.

Rhanberchnogaeth Gymunedol

Yn ogystal â'r gronfa budd cymunedol, hoffai Wind2 ac Octopus Energy Generation archwilio modelau posibl ar gyfer rhanberchnogaeth gymunedol o Barc Ynni arfaethedig Banc y Celyn, gyda'r cymunedau lleol ac unigolion yn cael cyfle i fuddsoddi yn y prosiect.

I rannu eich barn ar y gronfa budd cymunedol a chydberchnogaeth, sganiwch y cod QR isod a chwblhewch y ffurflen. Fel arall, gallwch lenwi'r ffurflen ar y tabled neu gwblhau fersiwn bapur a naill ai ei phostio yn y blwch adborth neu ei dychwelyd i'r cyfeiriad ar y ffurflen.



Sganiwch y cod QR i weld y wybodaeth hon

Community Benefit Fund

Community Benefit Fund

Wind2 and Octopus Energy Generation are committed to ensuring that the local communities benefit from the energy park and will be providing a dedicated community benefit fund of at least £5,000 per megawatt of installed capacity.

As part of our public consultations, we are seeking your initial views on how the fund could be managed, distributed and used.


Community Shared Ownership

In addition to the community benefit fund, Wind2 and Octopus Energy Generation would like to explore potential models for community shared ownership of the proposed Parc Ynni Banc y Celyn, whereby the local communities and individuals would have the opportunity to invest into the project.

To share your views regarding the community benefit fund and shared ownership, simply scan the below QR code and complete the form. Alternatively, you can complete the form via the tablet or complete a paper version and either post it in the feedback box or return it via the address on the form.



View this information via the QR code



wind2

parcynnibancycelyn.cymru



Amserlen

- **Ymgynghoriad cyhoeddus** – Mawrth 2025
- **Dadansoddi Adborth** – Gwanwyn 2025
- **Parhau i baratoi'r AEA a chynllunio'r prosiect** – Gwanwyn 2025
- **Ail rownd yr ymgynghoriad cyhoeddus** – Hydref 2025
- **Cyflwyno i Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW)** – Gaeaf 2025/26
- **Penderfyniad gan PEDW** – 2027
- **Parc Ynni ar waith** – Wedi 2030

Cynhelir ail rownd o arddangosfeydd cyhoeddus lle bydd y gymuned leol yn cael gwybodaeth am y cynigion terfynol cyn cyflwyno'r cais.

Y Camau Nesaf

Mae'r digwyddiad hwn yn un elfen o raglen gynhwysfawr o ymgynghori cyhoeddus sy'n cael ei chynnal i ddarparu gwybodaeth a chasglu sylwadau ac adborth am gynigion ar gyfer y parc ynni arfaethedig.

Bydd eich sylwadau yn helpu i wella ansawdd ein cyflwyniad cynllunio a llywio cynigion cysylltiedig ar gyfer cronfa budd cymunedol a modelau perchnogaeth gymunedol posibl.

Rydym wedi creu gwefan prosiect bwrpasol yn www.parcynnibancycelyn.cymru a fydd yn cael ei diweddarau'n rheolaidd gyda'r wybodaeth ddiweddaraf ar ein cynigion a'r broses ymgynghori cyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Er mwyn rhoi digon o amser i aelodau'r gymuned leol roi eu barn a'u hadborth, rydym wedi pennu dyddiad cau o ddydd Llun 18 Ebrill 2025 ar gyfer ymatebion.



Cod QR Adborth

Os oes modd i chi wneud, cymerwch ychydig funudau i roi eich adborth gan ddefnyddio'r cod QR, y dabled neu cwblhewch ffurflen adborth.

Sylwch nad yw'r sylwadau a wneir i Gwynt2 yn sylwadau a wnaed i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW). Bydd cyfle i gyflwyno sylwadau uniongyrchol i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) pan gyflwynir y cais cynllunio.

Os oes unrhyw agwedd ar y datblygiad arfaethedig yr hoffech ei drafod yn fanylach, siaradwch ag aelod o dîm y prosiect.

Gallwch hefyd gwblhau'r ffurflen adborth ar-lein yn:
Parcynnibancycelyn.cymru/adborth

neu ysgrifennu atom neu anfon ffurflen adborth wedi ei gwblhau i'r cyfeiriad canlynol:
Wind 2 Limited, Linden House, Parc Busnes yr Wyddgrug, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1XP

Timeline

- **Public Consultation** – March 2025
- **Analyse Feedback** – Spring 2025
- **Continue with EIA Preparation and Project Design** – Spring 2025
- **Second Round of Public Consultation** – Autumn 2025
- **Submit to Planning and Environment Decisions Wales (PEDW)** – Winter 2025/26
- **Decision by PEDW** – 2027
- **Energy Park Operational** – Post 2030

A second round of public exhibitions will be held where the local community will be provided with information on the final proposals prior to the submission of the application.


Next Steps

This event is one element of a comprehensive programme of public consultation being undertaken to provide information and collect comments and feedback about proposals for the proposed energy park.

Your comments will help improve the quality of our planning submission and inform related proposals for a community benefit fund and potential community ownership models.

We have created a dedicated project website at www.parcynnibancycelyn.cymru which will be regularly updated with the latest information about our proposals and the public consultation process in both Welsh and English.

To give members of the local community sufficient time to provide their thoughts and feedback, we have set a deadline of Monday 18th April 2025 for responses.



Feedback QR Code

If you can, please take a few minutes to provide your feedback via the QR code, the tablet or complete a feedback form.

Please note that comments made to Wind2 are not representations made to the Planning and Environment Decisions Wales (PEDW). There will be the opportunity to make direct representations to the Planning and Environment Decisions Wales (PEDW) when the planning application is submitted.

If there is any aspect of the proposed development you'd like to discuss in more detail, please to speak to a member of the project team.

You can also complete the feedback form online at: Parcynnibancycelyn.cymru/feedback

or write to us or send us your completed feedback form via the following address:
Wind 2 Limited, Linden House, Mold Business Park, Mold, Flintshire, CH7 1XP

Golygfan 1 - B4519 Grid Gwartheg

Viewpoint 1 - B4519 Cattle Grid



Ffotowire | Photowire



Ffotograff Gwaelodlin | Baseline Photograph

Viewpoint 2 - Aberedw


Golygfan 2 - Aberedw



Ffotowire | Photowire



Ffotograff Gwaelodlin | Baseline Photograph



wind2

Golygfan 4 - Sioe Frenhinol Cymru Llanelwedd Viewpoint 4 - Builth Wells Royal Welsh Showground



Ffotowire | Photowire



Ffotograff Gwaelodlin | Baseline Photograph


Golygfan 8 - Pen y crug Viewpoint 8 - Pen y Crug



Ffotowire | Photowire



Ffotograff Gwaelodlin | Baseline Photograph



wind2

parcynnibancycelyn.cymru